COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD A GYNHALIWYD AR DDYDD MAWRTH 8fed EBRILL 2003 YN ARENA RYNGWLADOL CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. C Chapman
	Mr. D Carr

1. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin a Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot yn ardal Cwmllynfell – Llythyr a dderbyniwyd oddi wrth un o drigolion Fferm Brynmorgan Isaf, Cwmtwrch.

1.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd bod y Comisiwn wedi derbyn llythyr oddi wrth un o drigolion Cwmtwrch Uchaf yn gofyn i ystyriaeth gael ei rhoi i adolygu'r ffin ger ei thŷ. Dywedodd mai hi ar hyn o bryd oedd yr unig un o drigolion Cwmtwrch Uchaf yr oedd ei heiddo o fewn Castell-nedd Port Talbot. Ystyriai fod hyn yn ei hynysu oddi wrth ei chymdogion ac yn golygu ei bod yn derbyn gwasanaethau gwael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

1.2 Ystyriodd y Comisiwn bod rheswm da dros ymgorffori cais y trigolyn fel rhan naill o'u harolwg ar Gwmtwrch neu Gwmllynfell. Gan fod yr ardal oedd yn ymwneud â'r cais wedi'i lleoli rhwng y ddwy brif ardal dan sylw adolygir, gallai gael ei chynnwys yn y naill neu'r llall. Fodd bynnag, dywedodd Mr Halsall gan fod yr arolwg o Gwmtwrch wedi ei gwblhau erbyn hyn, a'i fod ar hyn o bryd wrthi'n cael ei gyfieithu a'i argraffu, byddai'n fwy rhesymegol cynnwys yr ardal newydd yn arolwg Cwmllynfell a oedd yn mynd rhagddo o hyd. **Cytunwyd** y byddai'r ardal a nodwyd yng nghais y trigolyn yn cael ei chynnwys fel rhan o arolwg Cwmllynfell.

2. Unrhyw Fater Arall.

2.1 Nid oedd unrhyw fater arall.